# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)08-01 (p8): 17 Ionawr 2008

### Deiseb cyf P-03-074: Nant Cylla a Deiseb cyf P-03-84: Afon Rhymni

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y deisebau hyn.

### Y Cefndir

Mae Deiseb P-03-074 yn gwrthwynebu cais gan Redrow Homes i Asiantaeth yr Amgylchedd am drwydded i ollwng carthion i gwrs dŵr Nant Cylla. Mae deiseb P-03-084 yn debyg iawn i P-03-074.

Ystyriwyd y ddeiseb yn gyntaf gan y Pwyllgor 18 Hydref 2007. Yn y cyfarfod hwn, cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y deisebwyr. Yng nghyfarfod y Pwyllgor 22 Tachwedd 2007 rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. 'R oedd y papur atodol a ddarparwyd gan yr Asiantaeth yn y cyfarfod hwnnw'n datgan bod yr asiantaeth ''yn bwriadu gwrthod y cais cynllunio hwn yn unol â'n polisi'' "(is minded to refuse this consent application in line with our policy)'."

Ers i'r ddeiseb hon gael ei hystyried ddiwethaf, mae Redrow Homes wedi tynnu'u cais am y drwydded yn ei ôl. Trafodwyd hyn â'r prif ddeisebwyr.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Yn sgil y ffaith fod Redrow Homes wedi tynnu'n ôl eu cais i'r Asiantaeth, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried cau'r deisebau hyn.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008